# Canllaw

*Galluogi pobl i fyw yn annibynnol yn eu cymunedau*

## AELODAU BWRDD GWIRFODDOL

## PECYN GWYBODAETH

# Pwy ydyn ni?

Mae Canllaw yn darparu gwasanaethau tai ac atebion ymarferol i anghenion tai pobl hŷn neu bobl fregus lleol.

**Ein nodwedd unigryw yw gallu darparu gwasanaeth wedi ei deilwra trwy wrando ar yr unigolyn, ac ymateb i'w anghenion i'w gwneud yn bosib iddynt fyw'n annibynnol mewn cartref pwrpasol a diogel. Rydyn ni wedi ymroi i roi gwerth am arian a sicrwydd safon.**

## Ein Hardal Weithredu



Mae Canllaw yn fenter gymdeithasol sy'n gweithredu ar draws siroedd Gwynedd ac Ynys Môn.

Lleolir ein swyddfa weithredol ym Mharc Menai, Bangor, rhwng y ddwy sir, ac yn agos i priffyrdd allweddol sy'n caniatáu i ni gyflenwi'n rhwydd ar draws ein holl ardal weithredu.

## Ein Gwasanaethau

Canllaw

*Galluogi pobl i fyw yn annibynnol yn eu cymunedau*

**Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn**

Gwasanaeth rhad ac am ddim i bobl 60 oed a hŷn i'w cynghori a chefnogi i gynnal, gwella neu addasu eu cartrefi. Yn benodol yn y sector breifat, ac wedi ei ariannu'n bennaf gan Lywodraeth Cymru.

**Canllaw Technegol**

Gwasanaeth proffesiynol i ddylunio, cynllunio, archwilio a goruchwylio gwaith adeiladu, boed mawr neu fach, ar gyfer cleientiaid hŷn neu fregus.

**Canllaw Addasu**

Gwasanaeth masnachol i wneud addasiadau priodol yng nghartrefi pobl hŷn neu fregus, er mwyn cynnal eu eu hannibyniaeth.

# Rôl Aelod o'r Bwrdd

## Pwrpas y rôl

Mae'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd yn gyd-gyfrifol am sicrhau llwyddiant Canllaw a sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r holl ymrwymiadau cyfreithiol a rheoleiddiol trwy gyfarwyddo a goruchwylio ei fusnes.

## Prif Gyfrifoldebau:

**Pennu cyfeiriad strategol tymor hir yr Cwmni a goruchwylio datblygu a chyflawni ei amcanion strategol, a symud y Cwmni ymlaen tuag at wireddu'r amcanion hynny.**

Yn benodol:

- Pennu cenhadaeth, gweledigaeth, gwerthoedd, amcanion strategol a pholisïau lefel uchel y sefydliad, ar y cyd
- Cyfrannu at sefydlu fframwaith ar gyfer cymeradwyo polisïau a chynlluniau i gyflawni'r amcanion hynny
- Cynnal a hyrwyddo polisïau, pwrpas, gwerthoedd ac amcanion craidd yr Cwmni

**Sicrhau bod y Bwrdd yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau o ran llywodraethu'r sefydliad yn briodol, yn cynnwys cydymffurfio a monitro risgiau**

Yn benodol:

- Gweithredu yn rhesymol ac er budd y sefydliad bob amser, a chydymffurfio â'r cod ymddygiad; sicrhau bod eich ymddygiad fel Aelod o'r Bwrdd yn cyfleu gwerthoedd y sefydliad
- Cyfrannu at a rhannu cyfrifoldeb am benderfyniadau'r Bwrdd ac unrhyw un o bwyllgorau'r Bwrdd yr ydych chi'n aelod ohonynt
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Prif Swyddog
- Bodloni eich hun fod busnes y cwmni yn cael ei gynnal yn gyfreithlon ac yn unol â gofynion rheoleiddiol a safonau perfformiad ac uniondeb a dderbynnir yn gyffredinol
- Sicrhau bod prif risigau y mae'r sefydliad yn eu wynebu yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod fframwaith rheoli risgiau effeithiol yn cael ei weithredu
- Cymeradwyo ar y cyd lefelau cydnabyddiaeth priodol i'r Prif Swyddog; cymryd rhan yn y broses o benodi, a lle bo angen, cael gwared ar y Prif Swyddog, a chynllunio olyniaeth
- Ymgysylltu'n effeithiol â phrif randdeiliaid, fel bo'n ofynnol, yn enwedig preswylwyr
- Cydymffurfio'n llawn ag dogfennau llywodraethol y sefydliad yn cynnwys y polisïau, gweithdrefnau a rheolau sefydlog.



**Sicrhau bod cynllun busnes effeithiol a chyllideb yn bodoli**

Yn benodol:

- Bodloni  eich hun ynghylch cywirdeb gwybodaeth ariannol, a sicrhau bod trafodion ariannol yn cael eu cyfrifo'n systemataidd a'u harchwilio, ac y cydymffurfir ag unrhyw gyfamodau benthyciadau
- Cymeradwyo cyfrifon pob blwyddyn cyn eu cyhoeddi a chymeradwyo'r cynllun busnes a'r gyllideb bob blwyddyn.

**Sicrhau bod perfformiad yn cael ei fonitro a'i reoli trwy fesurau rheoli a dirprwyo mewnol**

Yn benodol:

- Sicrhau bod mecanmweithiau priodol, mewnol ac allanol, yn bodoli i ddilysu bod y bwrdd yn derbyn darlun cytbwys a chywir o sut mae'r sefydliad yn perfformio
- Sicrhau bod mesurau rheoli a systemau mewnol yn cael eu harchwilio a'u hadolygu'n rheolaidd
- Monitro perfformiad ar lefel strategol o ran cynlluniau, cyllidebau, mesurau rheoli a phenderfyniadau a hefyd yn sgîl adborth gan gwsmeriaid a pherfformiad sefydliadau cyffelyb
- Cymryd rhan mewn adolygiadau rheolaidd o berfformiad y Bwrdd, ac arfarnu Aelodau'r Bwrdd; cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad a hyfforddiant y Bwrdd, a gweithgareddau dysgu eraill fel bo'n ofynnol.

**Cymeradwyo polisïau allweddol i ganiatáu i'r sefydliad gyflawni ei amcanion**



## Cyfyngiadau'r rôl

Mae angen i Aelod o'r Bwrdd fod yn ymwybodol:

Nad oes gan unrhyw aelod unigol o'r Bwrdd, yn cynnwys y Cadeirydd, awdurdod oni bai ei fod yn gweithredu'n benodol ar ran y Bwrdd gydag awdurdod dirprwyedig y Bwrdd. Mae gan Aelodau'r Bwrdd awdurdod ar y cyd, ond nid oes ganddynt awdurdod yn unigol.

Swydd y Prif Swyddog yw gweinyddu'r sefydliad. Swyddogaeth y Bwrdd yw darparu cyfeiriad ar flaenoriaethau strategol i'r Prif Swyddog ac yna eu cefnogi hwy i berfformio'n dda a chyflawni yn erbyn y blaenoriaethau a bennwyd. Rhaid parchu'r ffin hon rhwng y rolau llywodraethu a rheoli a'u hegluro pryd bynnag y bo'n angenrheidiol.

## Manyleb y rôl

Bydd angen i aelod o'r Bwrdd weithio yn unol ag Egwyddorion Nolan, sy'n nodi'r ffyrdd y dylai deilyddion swyddi cyhoeddus ymddwyn wrth gyflawni eu dyletswyddau.

# PROFIAD A SGILIAU

1. **Ymwybyddiaeth strategol** – ymwybodol o ffactorau amgylcheddol cyfredol a'r rhai a allai gymryd effaith yn y dyfodol. Ymwybodol o'r adnoddau mewnol sydd ar gael i'r sefydliad a sut y gellir defnyddio'r rhain i sicrhau eu bod yn gweddu orau.
2. **Arloesi** – chwilio am ddatrysiadau creadigol ac arloesol i broblemau, ac yn medru cefnogi ac annog dulliau arloesol mewn pobl eraill.
3. **Gwybodaeth leol / ranbarthol** – deall yr amgylchedd a'r heriau a'r cyfleoedd sydd ar gael yng Ngwynedd a Môn.
4. **Persbectif** – yn medru goresgyn problem neu sefyllfa uniongyrchol a gweld y materion a'r goblygiadau ehangach. Y gallu i berthnasu ffeithiau ar wahân a chysylltu perthnasoedd a dychmygu sefyllfaoedd posibl yn y dyfodol a'u deilliannau potensial.
5. **Parodrwydd i newid** – yn ymwybodol o ac yn ymateb i'r angen i newid. Medru arddangos ystwythder ac annog creadigrwydd ymhlith y Bwrdd a gyda'r Prif Swyddog mewn ymateb i heriau heddiw a heriau'r dyfodol.
6. **Dadansoddi a gwneud penderfyniadau**

   Yn *glir* – ynghylch beth yw'r penderfyniadau priodol i'w gwneud gan y Bwrdd.

   *Manylion* – yn mynnu'r lefelau manylder priodol er mwyn darparu sicrwydd. Cydwybodol ac wedi paratoi'n dda ar gyfer dyletswyddau'r Bwrdd.

   *Safon uchel mewn llythrennedd a rhifedd* – derbyn gwybodaeth ysgrifenedig a rhifiadol yn gywir. Medru arfarnu gwybodaeth yn feirniadol a gwneud dehongliadau cadarn. Medru ystyried gwrth-ddadleuon ac ymchwilio'n ddyfnach pan fo angen.

   *Barnu* – ystyried pwysau'r dystiolaeth, tybiaethau rhesymol, barn amgen, y dimensiwn moesegol a gwybodaeth arall cyn gwneud penderfyniad terfynol.

   *Penderfynol* – yn medru barnu'n rhesymol, gwneud penderfyniadau a gweithredu.
7. **Sgiliau cyfathrebu**

   *Ysgrifenedig* – medru cyfleu syniadau a safbwyntiau cymhleth yn glir a chywir.

   *Gwrando* – yn gwrando'n astud ac yn ofalus i sicrhau dealltwriaeth glir, ac yn gofyn cwestiynau i sicrhau dealltwriaeth lawn.

   *Cyflwyno* – medru ennyn diddordeb cynulleidfa a chyfleu negeseuon yn glir ac yn gryno mewn modd sy'n cysylltu â'r gynulleidfa.

   *Agored* – yn onest ac agored wrth gyfathrebu ag eraill. Yn ymwybodol o'i hunan ac yn medru cydnabod camgymeriadau neu ddiffygion yn ei berfformiad ei hun. Yn barod i wahodd a derbyn adborth adeiladol.

   *Dylanwadol* – yn medru ennyn cefogaeth a dylanwadu; craffter gwleidyddol.

# Bwrdd Rheoli

## Cyfarfodydd

Cynhelir pedwar cyfarfod y flwyddyn. Cynhelir y cyfarfodydd trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd a chyfieithiad Saesneg o'r agenda a'r adroddiadau yn cael eu darparu, fel bo angen. Mae croeso i aelodau gyfrannu yn y gymraeg neu Saesneg. Telir costau teithio ac unrhyw gostau gwarchod i'r aelod fynychu unrhyw gyfarfodydd.

## Ymrwymiad amser

Yn arferol bydd hyn yn cyfateb i 8-10 diwrnod y flwyddyn, fel arfer yn ystod y dydd ac oddeutu dau 'Ddiwrnod i Feddwl' y flwyddyn, ynghyd â hyfforddiant achlysurol, cysylltiadau cyhoeddus neu ddigwyddiadau eraill. Hefyd gellid gofyn i chi wasanaethu ar un neu ragor o bwyllgorau, a bydd yn ofynnol neilltuo amser paratoi cyn y cyfarfodydd.



## Aelodaeth

Caniatier uchasfwm o 15 aelod ar y Bwrdd Rheoli a etholir am dymor o 3 blynedd gan aelodau'r cwmni yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Caniateir i aelodau'r Bwrdd wasanaethu ar y Bwrdd am uchafswm o 9 mlynedd (tri thymor). Yr aelodau presennol yw:



### Tim Jones (Cadeirydd)

Profiad hir o weithio ar lefel strategol mewn corff cyhoeddus, roedd Tim yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau i Gyfoeth Naturiol Cymru cyn ymddeol. Mae bellach yn eistedd ar ambell fwrdd rheoli gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.



### Brenda Roberts

Gyrfa 20 mlynedd fel Sister yn y C&A ac Ysbyty Gwynedd a phrofiad o weithio mewn ysbytai yn Leeds, Caerdydd a Lerpwl gan arbenigo mewn gofal dwys, adran damweiniau ac argyfwng ac edoscopy. Cyn Reolwr Maes Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngholeg Menai.



### Stephen Edwards

Mae Stephen wedi sefydlu a datblygu CREAD Cyf., cwmni brandio/dylunio/cynhyrchu rhaglenni dogfen i radio a theledu. Yn gyd-drefnydd y Ras Rhyngwladol yr Wyddfa, mae gan Stephen brofiad eang o drefnu digwyddiadau â chyswllt a'r cyfryngau.



### Geraint George

Mae gan Geraint brofiad helaeth o ofynion rheoli newid a chyflawni gwelliannau i wasanaethau. Yn gyn Bennaeth Strategol a Gwella, Cyngor Gwynedd.



### Melville Evans

Cefndir o dros 20 mlynedd yn y maes tai. Ar hyn o bryd yn Brif Weithredwr dros dro ar Grŵp Cynefin.

Grŵp Cynefin

Mae Canllaw yn is-gwmni i Grŵp Cynefin

Canllaw